OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1240 (Cy. 280)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Tachwedd 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *10 Tachwedd 2020* |

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 11M(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

### Diwygio Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

**2.**—(1) Mae rheoliad 2 o Reoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (3), yn lle'r testun a amnewidiwyd rhodder "i Brydain Fawr o wlad heblaw Gogledd Iwerddon neu Aelod-wladwriaeth".

(3) Yn lle paragraff (4) rhodder—

> "(4) Yn rheoliad 13(3)(b), yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth neu Ogledd Iwerddon"."

(**1**) 2018 p. 16; mewnosodwyd paragraff 11M o Atodlen 2 i Ddeddf 2018 gan adran 22 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1); mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Gweler adran 20(1) o Ddeddf 2018 am y diffiniad o "devolved authority".

(**2**) O.S. 2019/250 (Cy. 62).

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

6 Tachwedd 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 11M(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16). Mae'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y cytundeb ymadael yn ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth yr UE a restrir yn Atodiad 2 i'r Protocol hwnnw gael ei gweithredu yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Rheoliadau hyn, felly, yn diwygio Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/250 (Cy. 62)) er mwyn gweithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon ac at ddibenion ymdrin â materion sy'n codi o'r Protocol hwnnw neu sy'n gysylltiedig ag ef.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, sy'n gwneud diwygiadau i Reoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019 (O.S. 2019/57 (Cy. 20)) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.